**Doc 03 ATISN 26205**

**From:** [Redacted – Regulation 13 Personal Data] on behalf of; Scheduled Monuments <ScheduledMonuments@gov.wales>

**To:** [Redacted – Regulation 13 Personal Data]

**Date:** Tue 21/02/2023 08:22

**Subject:** Cadw - Pont hynafol Llanbedr, Meirionnydd

Annwyl [Redacted – Regulation 13 Personal Data]

Diolch am gysylltu â Cadw mewn perthynas â'r bont yn Llanbedr.

Mae Pont Llanbedr yn strwythur Rhestredig ac mae hefyd yn heneb gofrestredig (ME026), sy'n golygu bod y bont wedi'i diogelu'n gyfreithiol rhag difrod neu aflonyddwch o dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016). Felly, byddai unrhyw waith a allai newid ymddangosiad y bont neu effeithio ar y strwythur yn gofyn am ganiatâd heneb gofrestredig gan Cadw cyn i'r gwaith dan sylw gael ei wneud.

[Scheduled monument consent | Cadw (gov.wales)]

Fel canllaw, mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar y bont ei hun yn cael caniatâd oherwydd yr effaith ffisegol niweidiol y byddai hyn yn ei chael ar y strwythur. Yn ogystal, bydd angen i unrhyw gynigion ystyried lleoliad a gweledeedd y bont. Felly, pe bai'r bont droed yn cael ei lleoli ar y bont neu i ffwrdd o'r bont, bydd angen ystyried sut y byddai'r bont droed yn effeithio ar leoliad yr heneb.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech rannu gyda ni unrhyw gynigion amlinellol yr ydych wedi'u datblygu neu eu llunio fel y gallwn roi sylwadau cychwynnol i chi i helpu i lywio sut rydych chi'n bwriadu'n gweithredu.

Diolch

---

**From:** [Redacted – Regulation 13 Personal Data]
**Sent:** Tuesday, February 14, 2023 12:44 PM
**To:** CADW Mailbox <CADW@gov.wales>
**Subject:** Pont hynafol Llanbedr, Meirionnydd

Prynhawn Da,

Yn anfon atoch gan obeithio y gallwch roi ymateb i mi yn sydun.

**Doc 03 ATISN 26205**

Dwi yn Glerc Cyngor Cymuned Llanbedr, ym Meirionnydd. Ac rydym unwaith eto yn y cyfryngau, ar y teledu parthed y diffyg arian ar gyfer ffordd mynedfa at y Maes Awyr a ffordd osgoi Llanbedr.

Fel y gwyddoch mae'n siwr bod pont hynafol y Pentref wedi ei chofrestru gyda CADW. ac felly yn ei gwneud yn anodd i wneud unrhyw waith datblygu yma.

Sgwennu hwn i ofyn a oes unrhyw fodd cael pont droed ynghlwm wrth y bont bresennol, neu ychydig o latheni ar wahan i'r bont bresennol fel bod modd i gerddwyr groesi yr afon Artro yn ddiogel.

Byddaf yn gwerthfawrogi unrhyw ymateb, ac yn fodlon trafod gyda chwi ar y id ac i hwyluso pethau..

[Redacted – Regulation 13 Personal Data]

Yn gywir iawn

[Redacted – Regulation 13 Personal Data]